

A reading from Hosea (1.2-10)

When the Lord first spoke through Hosea, the Lord said to Hosea, 'Go, take for yourself a wife of whoredom and have children of whoredom, for the land commits great whoredom by forsaking the Lord.' So he went and took Gomer daughter of Diblaim, and she conceived and bore him a son.

And the Lord said to him, 'Name him Jezreel; for in a little while I will punish the house of Jehu for the blood of Jezreel, and I will put an end to the kingdom of the house of Israel. On that day I will break the bow of Israel in the valley of Jezreel.'

She conceived again and bore a daughter. Then the Lord said to him, 'Name her Lo-ruhamah, for I will no longer have pity on the house of Israel or forgive them. But I will have pity on the house of Judah, and I will save them by the Lord their God; I will not save them by bow, or by sword, or by war, or by horses, or by horsemen.'

When she had weaned Lo-ruhamah, she conceived and bore a son. Then the Lord said, 'Name him Lo-ammi, for you are not my people and I am not your God.'

Yet the number of the people of Israel shall be like the sand of the sea, which can be neither measured nor numbered; and in the place where it was said to them, 'You are not my people', it shall be said to them, 'Children of the living God.'

This is the word of the Lord. **Thanks be to God.**

Psalm 85. 1-7

1 Lord, you were favourable to your land; you restored the fortunes of Jacob.

2 You forgave the iniquity of your people; you pardoned all their sin.

3 You withdrew all your wrath; you turned from your hot anger.

4 Restore us again, O God of our salvation, and put away your indignation towards us.

5 Will you be angry with us for ever? Will you prolong your anger to all generations?

6 Will you not revive us again, so that your people may rejoice in you?

7 Show us your steadfast love, O Lord, and grant us your salvation.

A reading from Colossians (2.6-15)

As you therefore have received Christ Jesus the Lord, continue to live your lives in him, rooted and built up in him and established in the faith, just as you were taught, abounding in thanksgiving.

See to it that no one takes you captive through philosophy and empty deceit, according to human tradition, according to the elemental spirits of the universe, and not according to Christ. For in him the whole fullness of deity dwells bodily, and you have come to fullness in him, who is the head of every ruler and authority.

In him also you were circumcised with a spiritual circumcision, by putting off the body of the flesh in the circumcision of Christ; when you were buried with him in baptism, you were also raised with him through faith in the power of God, who raised him from the dead. And when you were dead in trespasses and the uncircumcision of your flesh, God made you alive together with him, when he forgave us all our trespasses, erasing the record that stood against us with its legal demands. He set this aside, nailing it to the cross. He disarmed the rulers and authorities and made a public example of them, triumphing over them in it. This is the word of the Lord. **Thanks be to God.**

Listen to the Gospel of Christ according to St Luke Glory to you, O Lord. (11:1-13)

He was praying in a certain place, and after he had finished, one of his disciples said to him, 'Lord, teach us to pray, as John taught his disciples.'

He said to them, 'When you pray, say: Father, hallowed be your name. Your kingdom come. Give us each day our daily bread. And forgive us our sins, for we ourselves forgive everyone indebted to us. And do not bring us to the time of trial.'

And he said to them, 'Suppose one of you has a friend, and you go to him at midnight and say to him, "Friend, lend me three loaves of bread; for a friend of mine has arrived, and I have nothing to set before him." And he answers from within, "Do not bother me; the door has already been locked, and my children are with me in bed; I cannot get up and give you anything." I tell you, even though he will not get up and give him anything because he is his friend, at least because of his persistence he will get up and give him whatever he needs.

'So I say to you, Ask, and it will be given to you; search, and you will find; knock, and the door will be opened for you. For everyone who asks receives, and everyone who searches finds, and for everyone who knocks, the door will be opened.

Is there anyone among you who, if your child asks for a fish, will give a snake instead of a fish? Or if the child asks for an egg, will give a scorpion?

'If you then, who are evil, know how to give good gifts to your children, how much more will the heavenly Father give the Holy Spirit to those who ask him!'

Post Communion prayer

God of our pilgrimage, you have led us to the living water: refresh and sustain us as we go forward on our journey, in the name of Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Colect

Dduw trugarog, darperaist i'r rhai sy'n dy garu y fath bethau daionus sydd uwchlaw ein deall: tywallt yn ein calonnau'r fath gariad tuag atat, fel y bo i ni, sy'n dy garu uwchlaw pob dim, allu derbyn dy addewidion, sy'n fwy rhagorol na dim y gallwn ni ei ddeisyfu; trwy lesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Darlleniad o Hosea (1.2-10)

Dyma ddechrau geiriau'r ARGLWYDD trwy Hosea. Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Hosea, "Dos, cymer iti wraig o butain, a phlant puteindra, oherwydd puteiniodd y wlad i gyd trwy gilio oddi wrth yr ARGLWYDD." Fe aeth a chymryd Gomer, merch Diblain; beichiogodd hithau a geni mab iddo.

Yna dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Enwa ef Jesreel, oherwydd ymhen ychydig eto dialaf ar dŷ Jehu am waed Jesreel, a rhof derfyn ar frenhiniaeth tŷ Israel. Y dydd hwnnw torraf fwa Israel yn nyffryn Jesreel."

Beichiogodd Gomer eilwaith a geni merch. A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Hosea, "Enwa hi Lo-ruhama, oherwydd ni wnaif drugaredd mwyach â thŷ Israel, i roi maddeuant iddynt. Ond gwnaf drugaredd â thŷ Jwda, a gwaredaf hwy trwy'r ARGLWYDD eu Duw; ond ni waredaf hwy trwy'r bwa, y cleddyf, rhyfel, meirch na marchogion."

Wedi iddi ddiddyfnu Lo-ruhama, beichiogodd Gomer a geni mab. A dywedodd yr ARGLWYDD, "Enwa ef Lo-ammi, oherwydd nid ydych yn bobl i mi, na minnau'n Dduw i chwithau."

Bydd nifer plant Israel fel tywod y môr, na ellir ei fesur na'i rifo. Yn y lle y dywedwyd wrthynt, "Nid-fy-mhobl ydych", fe ddywedir wrthynt, "Meibion y Duw byw".

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Salm 85. 1-7

1 O Arglwydd, buost drugarog wrth dy dir; adferaiſt lwyddiant i Jacob.

2 Maddeuaist gamwedd dy bobl, a dileu eu holl bechod.

3 Tynnaist dy holl ddigofaint yn ôl, a throi oddi wrth dy lid mawr.

4 Adfer ni eto, O Dduw ein hiachawdwriaeth, a rho heibio dy ddieter tuag atom.

5 A fyddi'n digio wrthym am byth, ac yn dal dig atom am genedlaethau?

6 Oni fyddi'n ein hadfywio eto, er mwyn i'th bobl lawenhau ynot?

7 Dangos i ni dy ffyddlondeb, O ARGLWYDD, a rho dy waredigaeth inni.

Darlleniad o Colosiaid (2.6-15)

Felly, gan eich bod wedi derbyn Crist lesu, yr Arglwydd, dylech fyw ynddo ef. Cadwch eich gwreiddiau ynddo, gan gael eich adeiladu ynddo, a'ch cadarnhau yn y ffydd fel y'ch dysgwyd, a bod yn ddibrin eich diolch.

Gwylwch rhag i neb eich cipio i gaethiwed drwy athroniaeth a gwag hudoliaeth yn ôl traddodiad dynol, yn ôl ysbrydion elfennig y cyfanfyd, ac nid yn ôl Crist. Oherwydd ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo'n gorfforol, ac yr ydych chwithau wedi eich dwyn i gyflawnder ynddo ef. Y mae ef yn ben ar bob tywysogaeth ac awdurdod.

Ynddo ef hefyd yr enwaedwyd arnoch ag enwaediad nad yw o waith llaw, ond yn hytrach o ddiosg y corff cnawdol; hwn yw enwaediad Crist. Claddwyd chwi gydag ef yn eich bedydd, ac yn y bedydd hefyd fe'ch cyfodwyd gydag ef drwy ffydd yn nerth Duw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw. Ac er eich bod yn feirw yn eich camweddau a'ch cnawd dienwaededig, fe'ch gwnaeth chwi yn fyw gydag ef. Y mae wedi maddau inni ein holl gamweddau, ac wedi diddymu'r ddogfen oedd yn ein rhwymo i'r gofynion a'n gwnâi ni yn ddyledwyr. Y mae wedi ei bwrw hi o'r neilltu; fe'i hoeliodd ar y groes. Diarfogodd y tywysogaethau a'r awdurdodau, a'u gwneud yn sioe gerbron y byd yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth arnynt ar y groes.

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc Gogoniant i ti, O Arglwydd (11.1-13)

Yr oedd ef yn gweddïo mewn rhyw fan, ac wedi iddo orffen dywedodd un o'i ddisgyblion wrtho, "Arglwydd, dysg i ni weddïo, fel y dysgodd loan yntau i'w ddisgyblion ef."

Ac meddai wrthynt, "Pan weddïwch, dywedwch: 'Dad, sancteiddier dy enw; deled

dy deyrnas; dyro inni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol; a maddau inni ein pechodau, oherwydd yr ydym ninnau yn maddau i bob un sy'n troseddu yn ein herbyn; a phaid â'n dwyn i brawf."

Yna meddai wrthynt, "Pe bai un ohonoch yn mynd at gyfaill ganol nos ac yn dweud wrtho, 'Gyfaill, rho fenthyg tair torth imi, oherwydd y mae cyfaill imi wedi cyrraedd acw ar ôl taith, ac nid oes gennyf ddim i'w osod o'i flaen'; a phe bai yntau yn ateb o'r tu mewn, 'Paid â'm blino; y mae'r drws erbyn hyn wedi ei folltio, a'm plant gyda mi yn y gwely; ni allaf godi i roi dim iti', rwy'n dweud wrthyich, hyd yn oed os gwrthyd ef godi a rhoi rhywbeth iddo o achos eu cyfeillgarwch, eto oherwydd ei daerni digywilydd fe fydd yn codi ac yn rhoi iddo gymaint ag sydd arno ei eisiau.

"Ac yr wyf fi'n dweud wrthyich: gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Oherwydd y mae pawb sy'n gofyn yn derbyn, a'r sawl sy'n ceisio yn cael, ac i'r un sy'n curo agorir y drws. Os bydd mab un ohonoch yn gofyn i'w dad am bysgodyn, a rydd ef iddo sarff yn lle pysgodyn? Neu os bydd yn gofyn am wy, a rydd ef iddo ysgorpion?

"Am hynny, os ydych chi, sy'n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i'ch plant, gymaint mwy y rhydd y Tad nefol yr Ysbryd Glân i'r rhai sy'n gofyn ganddo."

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Gweddi ar ol y Cymun

Dduw ein pererindod, tywysaist ni at y dŵr bywiol: adfywia a chynnal ni wrth inni fynd ymlaen ar ein taith, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**